

**DEDDF ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU) 2004,
RHEOLIADAU CYFRIFON AC ARCHWILIO (CYMRU) 2014 A RHEOLIADAU
(DIWYGIO) 2018**

**ARDYSTIO A CHYMERADWYO
CYFRIFON HARBYRBAU GWYNEDD
AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2022**

Mae Rheoliad 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau (Diwygio) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor Gwynedd lofnodi a dyddio'r cyfrif incwm a gwariant a'r datganiad o falansau (Ffurflen Flynyddol), ac ardystio ei fod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Harbyrau Gwynedd ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi ac o incwm a gwariant Harbyrau Gwynedd ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2022.

Mae Rheoliad 15 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a Rheoliadau (Diwygio) 2018 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol, yn dilyn yr ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol y cyfeiriwyd ato uchod, bod y corff ar ran Harbyrau Gwynedd yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi'r Ffurflen Flynyddol. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei gwblhau erbyn 31 Mai 2022.

Er i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol lofnodi ac ardystio'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer Harbyrau Gwynedd ar 25 Mai 2022 ac iddo gael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd ar 26 Mai 2022, gan fod Etholiadau Llywodraeth Leol wedi eu cynnal ar 5 Mai, nid yw'r corff wedi cyfarfod i gymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol cyn 31 Mai 2022.

Bydd Ffurflen Flynyddol Harbyrau Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 30 Mehefin 2022.

Dyddiedig: 27 Mai 2022